TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Training for BHS Stage 4 Care and Management

Yn gryno

Mae'r cwrs hwn wedi'i gynllunio i baratoi myfyrwyr ar gyfer arholiadau Gofal a Rheolaeth Cam 4 'Llwybr Trin' Rhagoriaeth Ceffylau BHS. Byddwch yn datblygu'r sgiliau ymarferol a damcaniaethol sydd eu hangen i ofalu am geffylau cystadlu a rheoli sefydliad ceffylau.

Dyma'r cwrs i chi os...

... Rydych yn unigolyn proffesiynol yn y diwydiant, sydd eisiau hyfforddi tuag at gymhwyster Gofal a Rheolaeth Cam 4 BHS

... Rydych eisiau datblygu eich sgiliau hwsmonaeth ceffylau wrth ofalu am geffylau cystadlu

... Mae gennych ddiddordeb brwd mewn rheoli busnes marchogol yn effeithiol

Beth fyddaf yn ei wneud?

Byddwch yn ymgymryd ag amrywiaeth o dasgau i ddatblygu'r wybodaeth a sgiliau ymarferol

sydd eu hangen arnoch i reoli a gofalu am ystod o geffylau.

Mae hyn yn cynnwys:

Dewis, ffitio a gwerthuso ystod o harneisiau arbenigol
Deall egwyddorion maeth, ffitrwydd a ffisioleg ceffylau
Arddangos sut i asesu cydffurfiad ac iechyd ceffylau
Deall sut i ofalu am wahanol grwpiau o geffylau
Deall y broses bwrw ebol a gofalu am gesig, ebolion a stoc ifanc
Deall pwysigrwydd gofal cwsmeriaid a sut i gymhwyso hyn yn eich busnes
Arddangos sgiliau rhyngbersonol effeithiol
Deall cyfrifoldebau rheolwr iard, gan gynnwys rheoli staff, cyfrifon a chadw cofnodion
Deall sut i reoli iard, gan gynnwys rheoli glaswelltiroedd, cyfleusterau a marchnata

Beth sy'n digwydd nesaf?

Gallai dysgwyr symud ymlaen i ymgymryd â'r asesiad Cam 4 BHS allanol neu wneud cais i fynychu un o'n cyrsiau ceffylau llawn amser.

Gwybodaeth Ychwanegol

Noder, mae'r cwrs hwn wedi'i gynllunio i baratoi dysgwyr ar gyfer adrannau arholiad Gofal a Rheolaeth Cam 4 BHS, ond nid yw'r cwrs hwn yn cynnwys mynediad i arholiadau.

Gall ymgeiswyr ddod â'u Cofnod Sgiliau BHS i'r hyfforddwr lofnodi cymwyseddau.

Noder nad yw'n orfodol cwblhau'r asesiad hwn ar ôl cwblhau'r cwrs.